# Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

## Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2

Hydref 2015

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi rhai o'r prif newidiadau a wnaed i'r *Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)* ("y Bil") yn ystod trafodion Cyfnod 2. Mae hefyd yn rhestru rhai gwelliannau nas cynigiwyd neu a gafodd eu tynnu'n ôl a allai, er hynny, fod o ddiddordeb.

## Y Cefndir

Cyflwynwyd y Bil ar 23 Chwefror 2015 gan Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ("y Gweinidog"). Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ("y Pwyllgor") oedd yn gyfrifol am graffu ar y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yng Nghyfnodau 1 a 2. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei **adroddiad Cyfnod 1** ym mis Gorffennaf 2015. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid ei ganfyddiadau yntau ym mis Mehefin 2015, a chyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol adroddiad ym mis Gorffennaf 2015.

Cymeradwyodd y Cynulliad y Bil yng Nghyfnod 1 yn dilyn dadl ar ei egwyddorion cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Gorffennaf 2015. Cafwyd penderfyniad ariannol ar yr un diwrnod.

Dechreuodd Cyfnod 2 ar 15 Gorffennaf 2015 a chyfarfu'r Pwyllgor i drafod a gwaredu'r gwelliannau ar 7 Hydref a 15 Hydref 2015.

Mae rhagor o wybodaeth am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael mewn **Crynodeb o'r Bil** a baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil.

## Gwelliannau a dderbyniwyd yng Nghyfnod 2

***Nodwch fod y rhifau isod yn cyfeirio at adrannau yn y Bil fel y'i cyflwynwyd. Oni nodir yn wahanol, gwelliannau Llywodraeth Cymru yw'r holl welliannau a dderbyniwyd***

### Ystyr "gwasanaethau rheoleiddiedig"

– Mae gwelliant 126 (Lindsay Whittle) wedi diwygio adran 2 er mwyn ychwanegu gwasanaethau eirioli at y rhestr o wasanaethau rheoleiddiedig. Mae hyn yn adlewyrchu argymhelliad 15 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor. Ni chynigiwyd gwelliant 156, sy'n diffinio gwasanaethau eirioli, a hynny am i'r Gweinidog ymrwymo i gytuno ar ddiffiniad newydd a gyflwynir ar ffurf gwelliant yng Nghyfnod 3.

### Gofal a chymorth: diffiniad a safonau

– Eglurodd gwelliannau 1 a 2 y diffiniad o ofal a chymorth yn adran 3 o'r Bil, gan roi enghreifftiau o'r hyn a olygir wrth ofal a chymorth yng nghyd-destun y Bil. Dywedodd y Gweinidog fod hyn mewn ymateb i argymhelliad 19 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor.

– Oherwydd gwelliant 43, yn lle 'caiff gofynion', nodir bellach fod 'rhaid i ofynion' a osodir gan reoliadau o dan adran 26 yn y Bil gynnwys safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu gan ddarparwr gwasanaeth. Argymhelliad 20 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor oedd hyn.

– Mae gwelliant 45 yn gweithredu argymhelliad 21 y Pwyllgor, gan ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad ar effaith yr ymgynghoriad ar reoliadau a wneir o dan adrannau 26(1) a (3). '

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Gwasanaeth Ymchwil

## Personau addas a phriodol mewn perthynas â gwasanaethau a reoleiddir

- Mewnosododd gwelliant 7 adran newydd ar ôl adran 7, gan sicrhau bod y prawf ar gyfer addasrwydd unigolion sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ymddangos ar wyneb y Bil. Cyn hynny, mater i reoliadau oedd y prawf. Roedd hyn mewn ymateb i **Adolygiad Flynn** yn 2015 i achosion o esgeuluso pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, ac mewn ymateb i argymhelliad 12 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor.

## Ymgymeriad mewn perthynas â hyd ymweliadau gofal cartref

- Mae gwelliant 132 (Lindsay Whittle) wedi diwygio adran 7. O'r herwydd, gofynnir i'r rhai sy'n gwneud cais i gofrestru fel darparwyr gwasanaethau gofal cartref ymgymryd y bydd eu hymweliadau gofal cartref yn para am o leiaf 30 munud ac eithrio o dan amgylchiadau penodol.

- Yn y ddadl, ymgymerodd y Gweinidog i ddefnyddio pwerau gwneud rheoliadau'r Bil i nodi safonau penodol mewn perthynas â hyd ymweliadau gofal.

## Tystysgrifau a chofrestrau

- Mae gwelliant 67 wedi diwygio adran 36 y Bil i sicrhau bod rhaid i'r gofrestr o ddarparwyr gwasanaeth fod ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio yn ddi-dâl. Yn ogystal, dilëwyd adran 25, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth arddangos tystysgrif gofrestru ar wahân.

## Datganiad blynyddol

- Mae gwelliant 8 wedi diwygio adran 8 fel y nodir ar wyneb y Bil y wybodaeth sylfaenol honno sydd i'w chynnwys yn natganiadau blynyddol darparwyr. Roedd hyn mewn ymateb i argymhellion Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

- Ychwanegodd gwelliant 8A (Lindsay Whittle) gynllunio gweithlu at y rhestr hon o wybodaeth sylfaenol.

- Mae gwelliant 8 hefyd wedi'i gwneud yn ofynnol i'r datganiad blynyddol gynnwys datganiad am sut y mae'r darparwr gwasanaeth wedi cydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wnaed o dan adran 26 o'r Bil. Bydd y rheoliadau hyn yn gosod gofynion o ran safon y gofal a'r cymorth y mae'n rhaid eu darparu.

- Mae gwelliant 9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r set gyntaf o reoliadau a wneir o dan adran 8 fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, fel yn argymhelliad (10) yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor (gweler hefyd welliant 77).

## Y seiliau dros ganslo heb gais

- Mae gwelliant 15, ynghyd â gwelliannau cysylltiedig a drafodwyd yn grŵp 10, wedi diwygio adran 13 er mwyn darparu y caiff Gweinidigion Cymru, wrth ganslo cofrestriad darparwyr gwasanaeth a dynodiad unigolion cyfrifol, ystyried achosion lle y dyroddwyd rhybudd ffurfiol i unigolyn, yn ychwanegol at y 'troseddau perthnasol' a ddiffinnir yn y Bil. Rhaid i droseddau o'r fath fod yn gysylltiedig â gwasanaeth rheoleiddiedig.

- Bydd troseddau nad ydynt yn gysylltiedig â gwasanaeth rheoleiddiedig yn ymwneud ag a yw person yn parhau yn 'berson addas neu briodol'. Mae gwelliant 14 wedi diwygio adran 13 er mwyn gwneud hyn yn sail ar wahân ar gyfer canslo.

- Nod gwelliannau eraill i adran 13 oedd ceisio sicrhau cysondeb o ran troseddau a gyflawnir yng Nghymru a Lloegr a'r tu hwnt; ac yn gall methu â chydymffurfio â gofynion rheoliadau o dan adran 27(1) fod yn sail ar gyfer canslo cofrestriad unigolyn cyfrifol a gwasanaeth rheoledig.

## Terfynau amser ar gyfer hysbysiadau o benderfyniadau a gyhoeddir gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

- Mae gwelliant 20 wedi diwygio adran 14 i'w gwneud yn ofynnol i hysbysiadau gwella nodi'r ffaith bod darparwr gwasanaeth yn cael gwneud sylwadau am hysbysiadau gwella cyn terfyn amser penodol, gyda gwelliant 21 yn diwygio adran 16 er

mwyn egluro bod camau brys a gymerir gan y rheoleiddiwr wedi'u heithrio o weithrdrefn yr hysbysiad o benderfyniad.

– Mae gwelliant 22 wedi diwygio adran 17 er mwyn caniatáu i hysbysiadau o benderfyniad gael eu cyhoeddi ar ôl y terfyn amser blaenorol o 28 diwrnod o dan amgylchiadau penodol. Mewnosododd gwelliant 23 bŵer yn adran 17 i wneud rheoliadau i newid y terfyn amser a nodir. Bydd rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

### Pwerau'r tribiwnlys

– Mae gwelliant 32 wedi diwygio adran 22 i egluro y gall tribiwnlys atal gorchymyn i ganslo neu amrywio ar frys gofrestriad a wnaed gan ynad.

– Mae gwelliant 41 wedi diwygio adran 24 i egluro y gall y tribiwnlys roi ei benderfyniad ei hun yn lle penderfyniad Gweinidogion Cymru yr apelir yn ei erbyn, ac mae'n rhoi i'r tribiwnlys bŵer i wneud gorchmynion interim, gan gynnwys y pŵer i atal effaith penderfyniad a wnaed gan Weinidogion Cymru.

### Amrywio, Gosod neu Ddileu Amodau Brys

– Mae gwelliannau 33-39 wedi diwygio adran 23 i ostwng y trothwy ar gyfer yr amgylchiadau lle y bydd Gweinidogion Cymru (AGGCC) yn gosod amodau ar gofrestriad darparwr gwasanaeth drwy ddileu'r gair 'difrifol' o'r testun sy'n disgrifio'r "perygl i fywyd rhywun neu iechyd corfforol neu iechyd meddwl person, neu fod perygl bod person yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod. "

– Mae gwelliant 40 wedi diwygio adran 24 i roi hawl arall i ddarparwyr gwasanaeth apelio yn syth i'r tribiwnlys haen gyntaf.

### Arolygu Darparwyr Gwasanaeth Rheoleiddiedig

– Mae gwelliannau 50 a 64 wedi diwygio adrannau 32 a 34 yn y drefn honno i ddarparu y bydd arolygiadau yn canolbwyntio ar ddarparwyr gwasanaeth yn hytrach na gwasanaethau rheoleiddiedig, ac y bydd arolygiadau yn asesu effaith y gofal ar les y rhai sy'n cael gofal, a'r modd y cydlynir ac y trefnir y gwasanaethau hynny.

### Pwerau Arolygwyr

– Mae gwelliant 51, a gwelliannau cysylltiedig a drafodwyd yn grŵp 18, wedi diwygio adran 33 i ganiatáu i arolygwyr arolygu: gwasanaethau na chaniateir eu darparu mewn mangre, neu fangre gysylltiedig lle na chaiff gwasanaethau eu darparu mewn gwirionedd.

– Mewnosododd gwelliant 63 adran newydd ar ôl adran 33 yn nodi pwerau'r arolygwyr i gyfweld â phobl yn breifat, gan gynnwys yr hawl i fynnu bod gofalwyr a pherthnasau yn cael eu cyfweld yn breifat hefyd. Mae hyn yn adlewyrchu argymhelliad 23 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor.

– Mae'r gwelliant hefyd yn darparu ar gyfer archwiliad meddygol.

– Mae gwelliannau 80-83 wedi diwygio adran 56 (a'r adran honno'n diwygio adran 161 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*) i ddarparu pwerau arolygu cyfochrog i awdurdodau lleol.

### Rheoliadau ynghylch Graddau Arolygu

– Mae gwelliant 65 wedi diwygio adran 35 i gynnwys pŵer i wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth arddangos y radd y mae arolygiad yn ei phennu, os cyflwynir trefn graddio fel rhan o arolygiad o dan yr adran hon. Bellach, o dan welliant 66, byddai unrhyw reoliadau sy'n sefydlu system ar gyfer pennu gradd arolygu hefyd yn ddarostyngedig i ofyniad i ymgynghori â rhanddeiliaid, gan adlewyrchu argymhelliad (25) yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor. Mae gwelliant (70) i'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 43 yn caniatáu i Weinidogion Cymru greu trosedd mewn perthynas ag arddangos gradd arolygu.

– Mae gwelliant 79 wedi diwygio adran 56 (sy'n diwygio Deddf 2014) i ddarparu'r un ddyletswydd i ymgynghori ynghylch rheoliadau sy'n ymwneud â phennu graddau ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

### Cydymffurfio ag Egwyddorion a Chonfensiynau'r

## Cenhedloedd Unedig

– Mae gwelliant 69 wedi diwygio adran 40 i'w gwneud yn ofynnol i reoleiddiwr y gwasanaeth adlewyrchu yn ei adroddiad blynyddol ddyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn. Mae hyn yn adlewyrchu argymhelliad 5 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor.

## Adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol

– Mae gwelliant 149 (Lindsay Whittle) wedi diwygio adran 55 (sy'n diwygio Deddf 2014) i'w gwneud yn ofynnol i adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol nodi sut y maent wedi bodloni unrhyw ofynion mewn cod sy'n ymwneud ag: asesu anghenion unigolyn yn unol â Rhan 3; a bodloni anghenion o dan Ran 4 o'r Bil.

– Mae gwelliant 77 wedi diwygio adran 55 (sy'n diwygio Deddf 2014) fel y bydd y set gyntaf o reoliadau a wneir o dan adran 144A(2)(b), ynghylch ffurf adroddiad blynyddol awdurdod lleol, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae hyn yn adlewyrchu argymhelliad 10 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor (gweler hefyd welliant 9).

## Comisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol

– Mae gwelliant 74 wedi diwygio adran 55 i'w gwneud yn ofynnol i adroddiad awdurdod lleol ynghylch sefydlogrwydd y farchnad gynnwys asesiad o effaith ei waith comisiynu ar arferiad ei swyddogaethau ynghylch gwasanaethau cymdeithasol. Bydd rheoliadau yn nodi'r cyfnod ar gyfer asesiad o'r fath.

– Mae gwelliant 78 wedi diwygio adran 56 (sy'n diwygio Deddf 2014) i'w gwneud yn glir bod pŵer AGGCC i adolygu mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol yn cynnwys adolygu comisiynu gwasanaethau.

– Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion 28 a 29 yn adroddiad y Pwyllgor oedd y gwelliannau hyn.

## Adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol

– Mae gwelliant 75 wedi diwygio adran 55 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried yr asesiadau diweddaraf a gyhoeddwyd o anghenion eu poblogaeth a'r cynllun y mae'n ofynnol iddynt ei gynhyrchu o dan Ddeddf 2014 wrth iddynt lunio adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgynghori â byrddau iechyd perthnasol, sy'n ymwneud ag argymhelliad 31 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor.

– Mae gwelliant 76 wedi diwygio adran 55 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn cyflwyno rheoliadau sylweddol sy'n ymwneud ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Mae hyn yn adlewyrchu argymhelliad 30 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor.

## Darpariaethau trosolwg o'r farchnad

– Mae gwelliant 84 wedi diwygio adran 58 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud unrhyw reoliadau sylweddol sy'n ymwneud â throsolwg o'r farchnad. Mae hyn yn ymateb i argymhelliad 33 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor.

– Mae gwelliant 87 wedi diwygio adran 62 i osod yr un gofyniad mewn perthynas ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol.

– Mae gwelliannau 85 ac 88 wedi diwygio adrannau 62 a 63 yn y drefn honno i sicrhau mai'r ystyr ehangach o ofal a chymorth, sef yr ystyr a geir yn *Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, a ddefnyddir mewn adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol. Mae hyn yn ymateb i argymhelliad 19 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor.

– Mae gwelliant 86 wedi diwygio adran 62 i'w gwneud yn ofynnol i AGGCC asesu effaith comisiynu ar arferiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

## Cofrestru Gweithwyr Gofal Cymdeithasol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

– Byrdwn gwelliannau 116 a 117 (Altaf Hussain) oedd ei gwneud yn ofynnol i staff gofal cartref a staff gofal i oedolion gael eu cofrestru. **Tynnwyd**

**gwelliant 116 yn ôl** ac **ni chynigiwyd gwelliant 117** ar ôl i'r Gweindog gadarnhau ei fod yn fwriad ganddo gyflwyno darpariaethau o'r fath mewn rheoliadau.

– Hefyd, ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth cyn Cyfnod 3 am y meini prawf posibl a'r amserlen ar gyfer cofrestru.

– Mae'r materion hyn yn ymwneud ag argymhelliad 38 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor.

### Addasrwydd i ymarfer

– Yng ngwelliannau 89-97 a 103-104, cafwyd nifer o newidiadau i'r darpariaethau yn y Bil ynghylch addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys y canlynol.

– Ychwanegodd gwelliant 90 y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth at y rhestr o gyrff perthnasol yn adran 116(4) sy'n cael penderfynu amhariad ar addasrwydd person i ymarfer, gyda gwelliant 91 yn rhoi pŵer i bennu cyrff perthnasol eraill mewn rheoliadau. Oherwydd gwelliant 103, bydd rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

– Effaith gwelliant 104 yw y bydd rheoliadau a wneir o dan adran 135(2)(d), am bersonau y caniateir i Gofal Cymdeithasol Cymru ddatgelu ymgymeriadau iddynt , yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae hyn yn adlewyrchu argymhellion yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

– Mae gwelliant 92 wedi diwygio adran 131 i'w gwneud yn ofynnol i hysbysu rhywun o'r ffaith bod mater a atgyfeiriwyd sy'n ymwneud â phaneli addasrwydd i ymarfer wedi cael ei ganslo.

### Gorchmynion sy'n Gwahardd Gwaith mewn Gofal Cymdeithasol: Personau Anghofrestredig

– Mae gwelliant 98 wedi diwygio adran 163 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar unrhyw reoliadau sy'n cyflwyno gorchmynion gwahardd.

– Mae gwelliant 99 wedi diwygio adran 167 o'r Bil drwy fewnosod darpariaeth newydd mewn perthynas ag amseriad adolygiadau o orchmynion gwahardd interim.

– Mae gwelliant 100 wedi diwygio adran 168 o'r Bil i sicrhau nad oes angen gwneud rheoliadau ynghylch apeliadau yn erbyn gorchmynion gwahardd hyd nes y bydd rheoliadau'n cyflwyno cynllun gorchmynion gwahardd.

### Awdurdodau perthnasol

– Mae gwelliant 101 wedi diwygio adran 175 i ychwanegu'r Cyngor Gweithlu Addysg at y rhestr o awdurdodau perthnasol y mae'n rhaid iddynt gydweithredu â'r cyrff rheoleiddio, AGGCC a Gofal Cymdeithasol Cymru.

– Mae diwygiadau 153 a 154 (Lindsay Whittle) wedi diwygio adran 175 i ychwanegu cynghorau iechyd cymuned at y rhestr o awdurdodau perthnasol.

## Y camau nesaf

Mae clercod Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth wedi paratoi fersiwn ddiwygiedig o'r Bil.

Dechreuodd trafodion Cyfnod 3 ar 16 Hydref 2015 (sef diwrnod ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2). Cynhelir trafodion Cyfnod 3 ddydd Mawrth 17 Tachwedd 2015.

Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 3 yw 18.00 dydd Mawrth 10 Tachwedd.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â'r prif glerc cyfrifol, Helen Finlayson (**Seneddlechyd@cynulliad.cymru**).